CANOLFANNAU AILGYLCHU CYNGOR GWYNEDD

DIM CERBYDAU MASNACHOL

O Gorffennaf 14eg 2014 bydd Cyngor Gwynedd yn cyfyngu ar y cerbydau sy'n cael defnyddio'r Canolfannau Ailgylchu.

Cerbydau NA chaniateir iddynt i ddefnyddio'r Canolfannau Ailgylchu



Mae'r cerbydau sy'n cael eu heffeithio yn cynnwys -

- Faniau o fath bocs Luton
- Faniau mwy ar gyfer cludo nwyddau
- Loriau gyda chefn agored, gwastad, neu loriau y mae eu cefnau'n codi i ollwng gwastraff.
- Tractorau
- Trelar gyda mwy nag un echel
- Unrhyw gerbydau amaethyddol

GWASTRAFF MASNACHOL

Ni all y safleoedd dderbyn gwastraff masnachol, a bydd yn rhaid cael gwared â hwnnw trwy ddefnyddio cyfleuster trwyddedig a bodloni gofynion o ran Dyletswydd Gofal.

Mae gadel gwastraff masnachol yn y Canolfannau Ailgylchu yn drosedd o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac fe allech gael dirwy o £50,000 ac/neu ddwy flynedd o garchar.

Mae'r safleoedd i bwrpas preswylwyr Cyngor Gwynedd i waredu gwastraff cartref. Os ydych yn gwneud gwaith adeiladu neu adnewyddu, dylid llogi sgip. Mae nifer o gwmnïau lleol a chenedlaethol yn cynnig gwasanaethau rheoli gwastraff neu, am gyngor pellach cysylltwch â Chyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000.

DIDOLI

Mae'n bosibl y byddwch yn cael cais i agor eich bagiau duon ac i ddidoli'r gwastraff er ailgylchu cyn eu gwaredu yn y sgip gwastraff gweddilliol. Er arbed amser yr ydym yn annog eich bod yn didoli'r deunydd ailgylchu a'r gweddilliol cyn ymweld ar ganolfan Ailgylchu.

Mae modd derbyn mwy o fanylion drwy gysylltu â Cyngor Gwynedd drwy 01766 771000 neu ailgylchu@gwynedd.gov.uk. Dylid rhoi cwestiynau am y bwriad i wahardd cerbydau masnachol i Gyngor Gwynedd ac nid i staff y Canolfannau Ailgylchu.

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

www.gwynedd.gov.uk

DIOLCH AM EICH CYDWEITHREDIAD